# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher yr 1af o Dachwedd 2023 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Iori Saer (Cadeirydd), Dorian Lewis, Sarah Pask, Christopher Smoothy, Huw James a Wyn Evans

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Geraint Evans & Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Dim

**4: MATERION YN CODI:**

Mi'r oedd y Cynghorydd Sarah Pask wedi derbyn cadarhad wrth Ann Watling y byddai'n barod i'w chael ei nodi fel y person a chyfrifoldeb dros y diffibriliwr newydd yng Nghwmfelinmynach. Roedd y clerc wedi holi am arwyddion i'r blwch ffôn yn Blaenwaun yn nodi fod diffibriliwr yno. Roedd Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Dinbych a Llanussyllt wedi dweud os byddai'r archeb yn mynd yn ei flaen am ddiffibriliwr Cwmfelinmynach, gallent gyflenwi arwyddion am £20. Cytunwyd i ychwanegu'r arwyddion hyn tuag at yr archeb am ddiffibriliwr, blwch ac arwyddion a oedd wedi cytuno eisioes, felly awdurdodwyd siec am £1375. Byddai'r clerc yn cysylltu i drefnu iddynt cael eu gosod.

Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi darganfod fod y cais cynllunio (PL/06403) am osod offer Telathrebu heb gael ei dynnu, er fod y tir feddianwr wedi tynnu ei ganiatad i'r gwaith cael ei wneud, felly roedd y Cais Cyn-Gynllunio dal yn ddilys

Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi adrodd y problemau am ddifyg torri cloddiau ac y swmp o 'Jac y Neidiwr' (Himalayan Balsam) yn tyfu ar hyd y ffordd rhwng Tyddyn a Rhydgoch ond nid oedd wedi derbyn ymateb.

Roedd y Cynghorydd Chris Smoothy wedi cael cyfarfod ar y cyd a chynghorwyr eraill ar Gaeau Blaenwaun ac roedd yr amcan pisiau a dderbyniwyd wedi cael eu rhannu cyn y cyfarfod. Trafodwyd yr amcan prisiau mewn manylder, a phenderfynnwyd, gan fod costau gweinyddol a gosod seit, yn hytrach na gwneud peth or gwaith yn awr, ac yna rhagor yn y dyfodol agos, ermwyn lleihau y costau statudol, gwneud y gwaith I gyd mewn un tro. Cytunwyd felly i osod y llinell zip gyda deunydd du oddi tano, Siglen fasged a Thŵr gweithgaredd (175047). Cytunodd y Cynghorydd Smoothy gael y pris gorau posib a dyddiad gosod gan y cyflenwr.

Nodwyd nad oedd y cais am ddeunydd atal-cwympo wedi ei osod ar y ddwy bont ar y llwybr troed. Byddai'r clerc yn dilyn hyn i fyny.

**5: GOHEBIAETH**

1. Darllennwyd ebost wrth Alan Rodway o Blaenllain, Cwmbach, Cytunodd y Cynghorwyr nad oedd unrhyw wrthwynebiad ganddynt I'r llwybr troed 19/70/1 gael ei symud yn swyddogol os dymunent. Parthed y pwynt cyntaf, roedd angen trafodaeth pellach am hyn.
2. Roedd Mrs Agoust wedi rhoi llythyr i'r clerc yn uniongyrchol ar y 30ain o Hydref. Darllenwyd y llythyr, ac roedd derbyneb am y llythyr i'w ddanfon i Mrs Agoust.
3. Derbynwyd ebost wrth Thomas & Thomas Landscaoing Ltd yn cynnig eu gwasanaeth ar gyfer prosiectau yn y dyfodol am waith tirlunio neu waith cerrig.

**6: DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Rent Tir ( Robinson) | £313.00 |
| Rent Tir ( D H James) | £407.00 |
| Rent Tir ( G E & J A James) | £869.00 |
| Rent Tir (Watkins) | £102.75 |

**7: BILIAU:**

| | | |
|---|---|---|
| Trydan SSE | - Debid Uniongyrchol | £66.45 |

**8: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £31,760.66 |
| Cyfrif Trysorydd | £13,577.51 |
| **Cyfanswm o** | **£45,338.17** |

Roedd y clerc wedi dosbarthu Cyllideb v Gwir ffigurau 2023-2024 hyd at ddiwedd Hydref 2023 ac fe'i drafodwyd mewn manylder.

**9: CYNLLUNIO:**

**PL/06586** –Estyniad ac addaasiadau – Pantymaen, Gellywen, SA33 6DR. Ni chodwyd unrhyw bryderon.

**10: Unrhyw fater arall:**

Roedd y Clerc wedi bod ym Manc Lloyds, Caerfyrddin i drafod bancio ar-lein a newid cyfeiriad gohebiaeth. Roedd y clerc a'r Cynghorydd Smoothy wedi llenwi y ffurflennu priodol. Cytunodd y Cynghorwyr a oedd yn bresennol am newid y cyfeiriad gohebiaeth a rhoi caniatad i'r clerc fod yn gymwys i arwyddo a chael mynediad llawn i fancio ar-lein. Llofnodwyd y ffurflennu priodol.

Nododd y Cynghorwyr fod yr arwyddion cyflymder a oedd yn gadael Cwmfelinmynach tuag at Llanboidy y ffordd anghywir. Byddai'n cael ei adrodd i'r Adran Priffyrdd.

Hefyd, nid oedd terfyn ar y cyfyngiad cyflymder o 20mya ger Heol Sion o Blaenwaun i Llanwinio.

Codwyd pryder unwaith eto am y tyllau yn yr heol o Fferm Lion i Gapel Moriah, Roedd yr adran yma o’r heol wedi cael ei gymeradwyo yn flaenorol i’w gael ei ail-wynebu, ond nid oedd wedi cael ei wneud.

**Cynhelir y cyfarfod cyffredinol nesaf nos Fercher y 3ydd o Ionawr 2024 am 8:00pm yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**